# AI ac Asesiadau

# Canllaw cyflym i fyfyrwyr

## Beth yw AI?



- Mae AI yn golygu deallusrwydd artiffisial ac mae ei ddefnyddio yn debyg i gael cyfrifiadur sy'n meddwl.
- Mae adnoddau AI fel ChatGPT neu Snapchat My AI yn gallu ysgrifennu testun, gwneud celf a chreu cerddoriaeth. I wneud hyn, mae'n dysgu gan ddata o'r rhyngrwyd, ond cofiwch – maen nhw'n gallu gwneud pethau i fyny a bod â thuedd hefyd



## Sut byddai modd camddefnyddio AI mewn asesiadau?

Camddefnyddio AI yw honni mai eich gwaith eich hun yw rhywbeth a wnaed gan AI.

**TWYLLO YW HYN!**



## Sut ydw i'n gwneud yn siŵr nad ydw i'n camddefnyddio AI?

**• Cofiwch y rheolau.**

- Ni chewch ddefnyddio adnoddau AI pan fyddwch chi mewn arholiad
- Bydd eich athrawon yn dweud wrthych chi os ydych chi'n cael defnyddio adnoddau AI wrth wneud eich gwaith cwrs – y cymhwyster fydd yn penderfynu'r rheolau
- Hyd yn oed os ydych chi'n cael eu defnyddio adnoddau AI, ni allwch gael marciau am gynnwys sydd wedi'i gynhyrchu gan AI yn unig – cewch farciau am ddangos eich bod chi wedi deall ac wedi cynhyrchu eich gwaith eich hun

**Cyfeirnodi cyfeirnodi cyfeirnodi!**
Os ydych chi'n cael defnyddio adnoddau AI, yna mae'n rhaid i chi eu cyfeirnodi'n glir

- Enwch yr adnodd AI a ddefnyddioch chi
- Ychwanegwch ddyddiad cynhyrchu'r cynnwys
- Esboniwch sut gwnaethoch chi ei ddefnyddio
- Cadwch sgrinlun o'r cwestiynau a ofynnoch chi a'r atebion a gawsoch chi

**Dylech ddatgan mai eich gwaith chi eich hun yw'r gwaith i gyd** – Bydd rhaid i chi arwyddo datganiad pan fyddwch chi'n rhoi eich asesiad i mewn. Rhaid mai eich gwaith chi eich hun yw unrhyw beth nad yw wedi'i gyfeirnodi. Os defnyddioch chi adnodd AI, peidiwch ag arwyddo'r datganiad tab y byddwch chi'n gwbl sicr eich bod wedi ychwanegu'r cyfeirnodi i gyd.

## Beth sy'n digwydd os ydw i'n camddefnyddio AI?

Os ydych chi wedi camddefnyddio AI, gallech chi golli eich marciau ar gyfer yr asesiad – gallech chi hyd yn oed gael eich diarddel o'r pwnc.

**PEIDIWCH Â'I MENTRO HI!**



**COFIWCH**

Twyllo yw camddefnyddio AI!

Cofiwch y rheolau

Siaradwch â'ch athrawon

Cyfeirnodwch yn glir